**Julie James AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg**
**Deputy Minister for Skills and Technology**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref SF/JJ/2690/15

At bob Aelod Cynulliad

28 Hydref 2015

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Yn ystod fy natganiad llafar ar 'Weithredu'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol' ar 13 Hydref, cytunais roi gwybodaeth ychwanegol i'r Aelodau am nifer o faterion. Rwy'n falch o gael rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi isod.

<u>Cofrestru gweithwyr ieuenctid</u>
Nid oedd y sector gwaith ieuenctid wedi'i restru fel un o'r categorïau cychwynnol i'w cofrestru o dan Atodlen 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn caniatáu inni ychwanegu categorïau newydd i'w cofrestru, fel y bo'n briodol; ac yn amodol ar gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhelir ymgynghoriad yn 2016 ar gyfer y Gweithwyr Ieuenctid y bydd angen iddynt gofrestru. Yn amodol ar gael cymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, rydym yn bwriadu gweithredu'r broses o gofrestru gweithwyr ieuenctid o fis Ebrill 2017 ymlaen.

<u>Gwasanaeth Dinasyddion</u>
Ym mis Awst, cafodd ein polisi gwirfoddoli ei lansio - *Cefnogi Cymunedau, Newid Bywydau.* Ar hyn o bryd, rydym yn rhoi sylw i'n pecyn cymorth i annog pobl i weithredu yn y gymuned, ac rydym yn cydweithio'n agos â'r Trydydd Sector i ddatblygu hyn.

Mae ein rhaglenni GwirVol a Bagloriaeth Cymru yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn prosiectau yn eu cymunedau lleol, ac i'w gwerthfawrogi. Rydym hefyd yn ystyried gwerthuso Cynllun Peilot Cymru ar gyfer Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol Llywodraeth y DU, a gafodd ei gynnal fis Hydref diwethaf, gan edrych yn fanylach ar y cyfraniad y gallai'r model hwn ei wneud wrth symud ymlaen.

<u>Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)</u>
Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi helpu i sicrhau bod gwaith gweithwyr ieuenctid yn gyson â gwaith gwasanaethau allweddol eraill ac wedi'i drefnu'n strategol ochr yn ochr â'r gwaith hwnnw. Roedd ein harchwiliad cenedlaethol o Waith Ieuenctid yn 2013/14 yn dangos bod 344 o brosiectau NEET wedi'u cyflawni gan y Gwasanaeth Ieuenctid ar draws Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@cymru.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd data'r Datganiad Ystadegol Cyntaf a gyhoeddywd ym mis Gorffennaf 2015 yn dangos mai 10.9% oedd y gyfran o bobl ifanc 16-18 oed nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn 2014.

Mae lleihau'r nifer o bobl ifanc NEET 19-24 oed yn fwy o her. Gall nifer o faterion gael effaith ar gyflawni hynny - sef yn benodol, ffactorau economaidd a chyflogaeth sy'n rhan o gylch gwaith Llywodraeth y DU. Mae'r data a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015 yn dangos bod y gyfran o bobl ifanc NEET wedi gostwng i 20.7% yn 2014, o 21.1% yn 2013.

Mae data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth a hyforddiant. Ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu Chwarter 2 2015, amcangyfrifwyd bod 9.1% o bobl ifanc rhwng 16-18 oed ac 19.1% o bobl ifanc 19-24 oed yn NEET, o'i gymaru â 9.7% (16-18 oed) ac 20.3% (19-24 oed) yn 2014.

Dangosodd ein harolwg o gyrchfannau Gyrfa Cymru fod cynnydd yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i wneud cwrs addysg bellach neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol yn 16 oed. Ym mis Tachwedd 2014, roedd 3.1% o ymadawyr Blwyddyn 11 yn NEET, o'i gymharu â 3.7% yn 2013.

I weld y data diweddaraf, ewch i; http://gov.wales/statistics-and-research/young-people-not-education-employment-training/?skip=1&lang=cy.

Archwiliad Cenedlaethol o Waith Ieuenctid

Mae ein Harchwiliad Cenedlaethol o Waith Ieuenctid 2013/14, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref, yn cyflwyno gwybodaeth am y ddarpariaeth statudol ym maes gwaith ieuenctid yng Nghymru. Dangosodd yr archwiliad y canlynol:

- Roedd 106,450 o bobl ifanc yn aelodau cofrestredig o'r ddarpariaeth ym maes Gwaith Ieuenctid yn y sector statudol yng Nghymru. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli 18% o boblogaeth y rhai 11 i 25 oed yng Nghymru, sy'n ostyngiad o 21% yn 2012/13, ac 20% yn 2013/14. Roedd y cyfrannau a adroddwyd yn amrywio o 54% yn Wrecsam i 15% ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O'i gymharu â 2013-14, roedd 9 awdurdod lleol wedi adrodd bod cynnydd yn nifer yr aelodau, a 12 awdurdod lleol wedi adrodd bod gostyngiad.
- Derbyniodd tua 12,400 o bobl ifanc ganlyniad achrededig cenedlaethol (800 yn is o'i gymharu â 2013/14), sy'n cynrychioli 12% o aelodau cofrestredig, ac roedd 18,000 o bobl ifanc wedi ennill canlyniad achrededig lleol (1,400 yn is o'i gymharu â 2013/14), sy'n cynrychioli 17% o'r holl aelodau cofrestredig.
- Casglwyd gwybodaeth ar y math o brosiectau unigol hefyd. Dangosodd hyn fod 1,565 o brosiectau clybiau ar-ôl-ysgol yn ardaloedd y 21 o awdurdodau lleol yng Nghymru, a bod 19% o'r holl brosiectau'n cael eu darparu yn gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ym mis Mawrth 2015, roedd 803 o staff a oedd yn darparu gwasanaethau a staff rheoli, cyfwerth ag amser llawn (CALl), y Gwasanaeth Ieuenctid yn gweithio ar draws awdurdodau lleol yng Nghymru. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, bu gostyngiad yn nifer y staff rheoli (o 84 i 71) a'r staff rheng-flaen craidd a oedd yn darparu gwasanaethau (o 430 i 410), a chynnydd yn nifer y staff a oedd yn cael eu hariannu'n allannol i ddarparu gwasanaethau (o 296 i 322).
- Cyfanswm yr incwm ar gyfer y ddarpariaeth ym maes Gwaith Ieuenctid yn 2014-15 oedd £36.6 miliwn; ac roedd cyfanswm y gwariant yn £35.5 miliwn. Ar gyfer y 21 o awdurdodau lleol a ddarparodd data ar gyfer y ddwy flynedd, bu gostyngiad o 11% yng nghyfanswm yr incwm, a gwelwyd bod yr incwm yn gostwng yn 17 o'r awdurdodau. Cyn hynny, roedd cyfanswm yr incwm wedi gostwng 4% ym mhob un o'r ddwy flynedd flaenorol, o £44.1 miliwn yn 2011-12.

- Yn ychwanegol at gyllideb graidd Gwaith Ieuenctid, roedd cyfanswm y gyllideb ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru yn 2014-15 yn cynnwys incwm o £13.8 miliwn o ffynonellau eraill, a oedd yn cyfrif am 38% o gyfanswm yr incwm. Yn 2012-13 roedd yr incwm o ffynonellau eraill yn £18.7 miliwn.
- Yn 2014-15 roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gyllideb graidd a oedd yn llai na ffigur dangosol y setliad refeniw, ac roeddent wedi ychwanegu at y gyllideb graidd drwy gael incwm o ffynonellau eraill. Roedd cyllideb graidd y gwasanaeth ieuenctid fel canran o setiliad refeniw llywodraeth leol yn amrywio o 31% yn Sir Gaerfyrddin i 113% yn Rhondda Cynon Taf.
- Yn 2014-15, cyfanswm y gwariant gan wasanaethau Gwaith Ieuenctid fesul y pen o'r boblogaeth 11-19 oed oedd £111. O'i gymharu â 2013-14, cyfanswm y gwariant oedd £126.

I weld manylion llawn yr archwiliad, ewch i: http://gov.wales/statistics-and-research/youth-services/?skip=1&lang=cy

Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion

Cafodd cwmni Ymchwil Arad ei gomisiynu i gynnal arolwg o waith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru, a nodi enghreifftiau o arferion da. Roedd yr astudiaeth wedi nodi cryfderau a gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau mewn perthynas â threfniadau ar gyfer darparu gwaith ieuenctid mewn ysgolion. I weld yr adroddiad llawn a chrynodeb o'r gwaith, ewch i : www.aradconsulting.com/cy/news/adrodd-ar-adolygiad-o-waith-ieuenctid-mewn-ysgolion/

Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu *Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm am oes*, sydd â goblygiadau a chyfleoedd amlwg o ran gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan weithwyr ieuenctid, yn arbennig mewn perthynas â chyflwyno ABCh/iechyd a lles. Mae swyddogion wrthi'n ystyried sut y gall gwaith ieuenctid gefnogi'r gwaith hwnnw.

Caiff cynhadledd genedlaethol ar Waith Ieuenctid ei chynnal ym mis Ionawr 2016, a bydd honno'n canolbwyntio ar effaith gwaith ieuenctic mewn ysgolion.

Aelodau o'r Grŵp Cyfeirio ar gyfer Gwaith Ieuenctid

Diben y Grŵp Cyfeirio yw cynnig cyngor, cymorth, arweiniad, a her i Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru ar Waith Ieuenctid yng Nghymru ac ar weithredu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid. Gallwch weld rhestr o'r aelodau yn atodiad a.

Caiff is-grŵp o'r Grŵp Cyfeirio, a fydd yn cael ei gadeirio'n annibynnol, ei sefydlu ar hyn o bryd i gynghori Llywodraeth Cymru ar wahanol ffyrdd o ddiogelu'r ddarpariaeth ym maes gwaith ieuenctid a fydd yn gweithio i Gymru, ac yn y gwahanol gyd-destunau a chymunedau ledled Cymru. Bydd aelodau'r is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chynrychiolydd o undeb llafur.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg
Deputy Minister for Skills and Technology

## Aelodau'r Grŵp Cyfeirio Gwaith Ieuenctid

| | |
|---|---|
| Cadeirydd CWVYS (Cyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru) | Keith Towler |
| Cadeirydd y PYOG (Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid) | Andy Borsden |
| Cynrychiolydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) | Donna Dickenson |
| Cynrychiolydd SOLACE Cymru | I'w gadarnhau |
| Cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) | Cllr Rhiannon Passmore |
| Grŵp Gynghrair Gwaith Ieuenctid | Gareth Newton<br>John Heffernan |
| Gweithiwr ieuenctid | Nick Hudd |
| Myfyriwr cwrs gradd Gwaith Ieuenctid | Geraint Jones |
| Pobl ifanc | Owain Talfryn<br>Tom Chandler<br>Gemma Williams<br>Philippa Warren |
| Cynrychiolydd Undebau | Dave Rees |
| Grŵp Strategol Gwaith Ieuenctid gyfrwng Gymraeg | Efa Gruffudd Jones |
| Cynrychiolydd Tim Cymorth Ieuenctid Ethnig | Rocio Cifuentes |
| Academyddion (sylwedydd) | Howard Williamson<br>Graeme Tiffany |
| Prif Swyddog Gweithredol CWVYS (sylwedydd) | Paul Glaze |
| Estyn (sylwedydd) | Gerard Kerslake |